# Radio: paratoi at y dyfodol

## Cam 2: Gweithredu'r fframwaith

Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref 2005

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 11 Ionawr 2006

**OfW 268**

# Radio: paratoi at y dyfodol

## Cam 2: Gweithredu'r fframwaith

### Cyflwyniad

Ofcom yw rheoleiddiwr annibynnol teledu, radio, telegyfathrebu a gwasanaethau cyfathrebu di-wifr yn y DG.

Fel rhan o'n swyddogaeth rydym yn gwylio'n ofalus sut caiff y gwasanaethau hyn eu cynnal a'u cynnig. Os byddwn o'r farn y gellid gwella pethau, byddwn yn ymgynghori â phawb dan sylw – o'r cwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau i'r cwsmeriaid sy'n eu defnyddio.

Crynodeb yw'r llyfryn hwn o'r ail ymgynghoriad yn ein golwg barhaus ar wasanaethau radio yn y DG. Cynhaliwyd ein hymgynghoriad cyntaf fis Rhagfyr 2004.

Mae'r cam hwn yn yr adolygiad yn cyflwyno'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

### Crynodeb o 'Radio – paratoi at y dyfodol'

Mae radio fel cyfrwng yn cynyddu ym mhobman. Mae ei ddosbarthiad a'i rym i ledaenu gwybodaeth ac i ddiddanu yn lleol ac yn genedlaethol yn eang ac yn uniongyrchol. Mae gwrandawyr yn caru eu gorsaf leol, a byddant yn gwrando ar eu hoff orsafoedd cenedlaethol yn rheolaidd. Maent yn newid yn hawdd o radio masnachol i'r BBC ac, oherwydd bod radio ar gael ar gynifer o 'blatfformau' (drwy deledu digidol, iPods ac ati), mae gwrandawyr wedi arwain radio i'r byd digidol o flaen y teledu mewn llawer o ffyrdd.

Er mai adolygiad o'r diwydiant radio yw'r ddogfen hon, dros reoleiddio rhan o'r sector radio ehangach yn unig rydym yn gyfrifol, gan gynnwys:

- radio'r BBC;
- radio masnachol;
- y sector radio cymunedol newydd;
- gwasanaethau radio dros dro ar gyfer digwyddiadau ac ati sy'n cael trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig yn unig; a
- gwasanaethau radio drwy gyfryngau newydd (gan gynnwys teledu digidol, teclynnau symudol neu'r rhyngrwyd), nad yw'r rheoliadau'n effeithio ar rai ohonynt, ond mae eraill yn dod dan ein cyfrifoldebau trwyddedu.

1 Yn y byd analog, mae'r cyfuniad o benderfyniadau polisi a chyfyngiadau ar yr amleddau sydd ar gael wedi creu marchnad radio lle mae'r BBC, ar y cyfan, yn dominyddu radio a ddarlledir ledled y DG, a lle mae'r sector masnachol yn dominyddu radio lleol. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, mae radio masnachol yn cael llawer llai o nawdd, yn ôl gorsaf, na'r hyn y caiff y BBC, a hynny ar lefel y DG a hefyd ar y lefel leol. Oherwydd hyn, mae'r ddau sector ar hyn o bryd yn darparu mathau gwahanol iawn o raglenni radio.

2 Mae radio digidol, sydd ar gael ar sawl platfform, yn dechrau newid hyn, ond mae radio analog yn parhau i ddominyddu'r farchnad.

3 Erbyn heddiw darlledir radio yn y DG ar sawl platfform, gan gynnwys radio analog, darlledu sain digidol (DSD), teledu digidol a'r rhyngrwyd. Cyfyngir ein cyfrifoldeb ni yn y farchnad radio i feysydd penodol – nid ydym yn rheoleiddio'r BBC (ac eithrio i ddelio â chwynion o fath penodol) na radio'r rhyngrwyd, ac mae ein rheoleiddio radio masnachol a chymunedol yn amrywio yn ôl y platfform a ddefnyddir.

## Fframwaith strategol cyffredinol Ofcom ar gyfer radio

4 Mae radio digidol yn cynnig sawl mantais i wrandawyr, gan gynnwys:

- mwy o ddewis gorsafoedd;
- haws cael hyd i'r donfedd
- mwy o nodweddion (megis y gallu i atal radio byw a'i ailddirwyn); a
- phosibilrwydd gwasanaethau data.

Yn y dyfodol mae'n debygol y bydd y mwyafrif llethol o wrandawyr yn gwrando ar y radio drwy blatfformau radio fel DSD, teledu digidol a'r rhyngrwyd. Er ein bod yn croesawu datblygu platfformau radio eraill, radio digidol DSD yw'r unig blatfform ar hyn o bryd sy'n:

- cynnig manteision radio digidol ar sianelau teledu darlledu di-dâl (fel Freeview), ac ar dderbynyddion symudol a chludadwy; ac yn
- gallu gwarantu ystod o wasanaethau lleol ac ar draws y DG i'r rhan helaethaf o'r DG.

Fel y cyfryw, mae'n bwysig i ni sefydlu'r amodau i alluogi radio digidol DSD i ehangu a ffynnu yn yr oes ddigidol heb atal platfformau eraill rhag datblygu ymhen amser.

5 Ein gweledigaeth gyffredinol ar gyfer radio yw caniatáu cystadleuaeth gynyddol yn y farchnad i ddarparu ystod mor eang â phosibl o wasanaethau, ac, ochr yn ochr â nhw, datblygu gwasanaethau amlgyfrwng newydd i wasanaethu anghenion cwsmeriaid. Ein swyddogaeth ni yw gwneud y weledigaeth honno'n bosibl.

6 Bydd hyn yn caniatáu i ni ail-gydbwyso'r modd rydym yn rheoleiddio radio drwy leihau ein hymwneud â rheoleiddio lle gallwn, ond parhau i sicrhau bod y farchnad yn darparu'r hyn y mae'r gymdeithas yn rhoi gwerth arno.

7 Mae gan ein fframwaith strategol ar gyfer rheoleiddio radio yn y dyfodol dri nod:

- gwella dewis, amrywiaeth ac arloesedd ar gyfer defnyddwyr yn genedlaethol, yn rhanbarthol, yn lleol ac yn gymunedol;
- diogelu buddiannau dinasyddion drwy sicrhau y darperir radio sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu dibenion cyhoeddus (gweler paragraff 13); ac
- ymwneud cyn lleied â phosibl yn y farchnad radio, yn unol â'n hamcanion.

8 Os dilynwn y fframwaith hwn, sut olwg fydd ar y farchnad radio ymhen 10 i 15 mlynedd?

- BBC cryf ac annibynnol, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau nodedig sy'n diwallu dibenion cyhoeddus radio, fel y'u nodir yn y Papur Gwyrdd ar

ddyfodol y BBC. Dylai gwasanaethau radio'r BBC anelu at ddiwallu'r dibenion cyhoeddus hyn ar draws yr amserlen gyfan, gan gynnwys yr amserau brig. Ond dylai'r BBC gydnabod ei effaith ar radio masnachol a chymunedol. Bydd angen sawl mesur newydd i sicrhau bod hyn yn digwydd, fel a nodir yn y Papur Gwyrdd ar ddyfodol Siarter Frenhinol y BBC a hefyd yn ein hymateb i'r Papur Gwyrdd hwnnw (ar wefan Ofcom yn: www.ofcom.org.uk/media/news/2005/06/nr_20050608).

- Nifer fawr o wasanaethau cymunedol ar lefel leol iawn, sy'n cynnig hyfforddiant i wrandawyr a chyfle iddynt gymryd rhan, i bob cymuned neu sefydliad a hoffai wasanaeth o'r fath, ble bynnag y bônt yn y DG.
- Ystod eang o wasanaethau masnachol lleol a rhanbarthol, sy'n darparu yn ôl chwaeth a diddordebau lleol, ac yn cynnig yr arddull leol y mae gwrandawyr yn dweud eu bod yn ei gwerthfawrogi – yn enwedig newyddion a gwybodaeth lleol.
- Ystod eang o orsafoedd ar gyfer y DG sy'n cynnig gwasanaethau newydd a chyffrous, yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o chwaethau a diddordebau, ac yn gystadleuaeth i'r BBC ar lefel y DG a lefel ranbarthol. Fel y mae teledu digidol wedi datblygu i gynnig sianelau sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd arbennig, dylai radio wneud hynny hefyd. Dim ond ar lefel y DG y mae'n debygol y bydd llawer o'r meysydd pwnc arbenigol hyn yn fasnachol ymarferol ar lefel y DG.
- Ystod o wasanaethau radio tanysgrifiad, sy'n cynnig rhaglenni nad yw dulliau hysbysebu traddodiadol efallai'n gallu eu cynnal.
- Ystod o drwyddedau gwasanaeth cyfyngedig hirdymor (LRSL) sy'n darparu ar gyfer safleoedd unigol a gwasanaethau dros dro (RSL dros dro), fel y rheiny sy'n darparu ar gyfer anghenion digwyddiadau penodol (gwyliau, digwyddiadau chwaraeon ac ati).
- Yr holl wasanaethau hyn a gefnogir gan wasanaethau amlgyfrwng, lle bo hynny'n bosibl, yn cynnig gwasanaethau, lawrlwythiadau, rhaglenni archif, testun a gwybodaeth graffigol ar gais.
- A'r holl wasanaethau hyn ar gael ble bynnag a phryd bynnag y mae cynulleidfaoedd am gael mynediad atynt ar ddyfeisiau sy'n cynnig gwir fanteision i'r cwsmer fel radios arunig, ffonau symudol neu'r rhyngrwyd.

9 Y canlynol yw'r agweddau hynny ar y weledigaeth hon nad yw marchnad radio heddiw yn eu diwallu:

- yr amrywiaeth eang o orsafoedd radio masnachol ar gyfer y DG gyfan;
- y ddarpariaeth amrywiol o radio ar lefel y DG a lefel genedlaethol sy'n diwallu dibenion cyhoeddus;
- sector radio tanysgrifio; ac
- yr amrywiaeth eang o wasanaethau radio cymunedol.

## Dibenion cyhoeddus radio

10 Roedd ein hymchwil gychwynnol, a gyhoeddwyd gyda cham 1 o'r adolygiad hwn, yn awgrymu bod cynulleidfaoedd ar y cyfan yn fodlon ar y radio y maen nhw'n ei dderbyn ar hyn o bryd. Ond o ystyried y dewisiadau eraill sydd wrthi'n dod i'r wyneb (fel iPods), mae llawer o wrandawyr, yn enwedig y rhai iau, o'r farn bod angen i radio addasu a symud ymlaen i ddarparu ar gyfer eu hanghenion mewn oes ddigidol.

11 Mae ein hymchwil ddiweddaraf yn nodi sawl diben a nodwedd i radio ac yn gofyn i wrandawyr pa mor bwysig ydynt iddyn nhw fel defnyddwyr ac fel dinasyddion.

12 Mewn byd delfrydol, byddai'r farchnad radio'n diwallu'r holl ddibenion a nodweddion hyn – ac, yn wir, y mae yn diwallu llawer ohonynt (yn darparu adroddiadau tywydd a thraffig, ac adloniant). Ond mae rhai pethau na fyddai'r farchnad yn eu darparu o gwbl, neu na fyddai'n darparu digon ohonynt, ac felly gall fod yn ofynnol i ni weithredu i'w darparu. Ein diffiniad o'r pethau hyn yw dibenion cyhoeddus radio.

13 Mae Papur Gwyrdd y Llywodraeth ar ddyfodol y BBC yn cyflwyno amrywiaeth o ddibenion cyhoeddus ar gyfer y BBC, ar draws ei holl wasanaethau. Gellir cydweddu'r dibenion a'r nodweddion a nodwyd yn ein hymchwil â'r dibenion cyhoeddus hyn i greu set o ddibenion cyhoeddus ar gyfer radio yn gyffredinol. Law yn llaw â'r gofynion ar radio cymunedol i gynnig manteision cymdeithasol, rydym o'r farn bod y rhain yn cynnig set fanwl o ddibenion cyhoeddus sydd:

- yn cynnal dinasyddiaeth a'r gymdeithas sifil;
- yn hyrwyddo addysg a dysgu;
- yn annog creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol;
- yn cynrychioli'r DG, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau;
- yn cyflwyno'r DG i'r byd a'r byd i'r DG; ac
- yn cynnig manteision cymdeithasol.

14 Bydd y pwyslais o fewn pob un o'r dibenion cyhoeddus cyffredinol hyn ar gyfer radio yn wahanol i gyfryngau eraill, a bydd sectorau gwahanol radio – y BBC, masnachol a chymunedol – yn diwallu agweddau gwahanol ar bob diben cyhoeddus.

15 Mae'n werth nodi hefyd, yn ogystal â chynnig manteision i ddefnyddwyr, bod y diwydiant radio yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi greadigol yn y DG, a bydd y swyddogaeth hon yn parhau i fod yn bwysig yn y dyfodol.

## Y camau mae eu hangen i wneud y fframwaith strategol yn bosibl

16 Mae'r diwydiant radio ei hun wedi dechrau manteisio ar y cyfleoedd hyn a bydd angen iddo barhau i symud ymlaen ac i addasu os yw am wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'r strategaeth hon yn eu cynnig, ond mae rhai pethau penodol y mae angen i ni a'r Llywodraeth eu gwneud i wneud y fframwaith hwn yn bosibl. (Noder: ystyrir materion yn ymwneud â sbectrwm VHF Band III yn fanylach mewn dogfen arall: 'Radio – Licensing policy for VHF Band III, sub-band 3', sydd ar gael ar ein gwefan yn: www.ofcom.org.uk/consult/condocs/vhf/)

### a) Rheoleiddio fformatau a 'lleolaeth'

- Ein dymuniad yw rheoleiddio heb ymyrryd gormod, ond parhau i ddiogelu buddiannau dinasyddion, felly rydym yn cadarnhau newid o reoleiddio mewnbwn (sut y gwneir rhaglenni) i reoleiddio allbwn (yr hyn y mae gwrandawyr yn ei glywed).

- Rydym yn darparu set derfynol o ganllawiau 'lleolaeth' (yn unol ag adran 314 o Ddeddf Cyfathrebu 2003), a ddiwygiwyd yn sgil ymgynghoriad (yn bennaf yn ymwneud â'r awgrym y dylai newyddiadurwr lleol fod yn bresennol ym mhob darllediad newyddion lleol).

  - Rydym yn cadarnhau y byddwn yn sicrhau bod y diwydiant radio yn dilyn y canllawiau uchod drwy ymateb i gwynion, gwirio cynnwys gwahanol raglenni radio, a chadw ffeil gyhoeddus ar y rhyngrwyd i ddangos sut mae'r orsaf yn gwasanaethu'r cyhoedd.

  - Er mwyn darparu gweithdrefnau eglur i orsafoedd, rydym yn cyflwyno (at ddibenion ymgynghori) y ffordd y byddwn yn ystyried ceisiadau am newidiadau mewn fformat i orsafoedd masnachol lleol. Bydd hyn yn berthnasol yn y tymor byr i ganolig. Fodd bynnag, nodwn, wrth i gystadleuaeth gynyddu a phan fydd y mwyafrif helaeth o'r boblogaeth yn gwrando ar radio digidol, y gall yr angen i fformatau gorsafoedd lleol nodi'r math o gerddoriaeth y mae'n rhaid iddynt ei chwarae leihau yn y tymor hirach.

- Ar hyn o bryd, gwireddir 'lleolaeth' ar radio digidol oherwydd bod gan lawer o'r gorsafoedd y mae DSD yn eu cario drwyddedau analog hefyd, ac felly mae'n rhaid iddynt fodloni rheoliadau analog (mae rhai gwasanaethau digidol-yn-unig yn cynnig, neu wedi ymrwymo i gynnig, deunydd lleol). Os/pan daw diwedd i gyd-ddarlledu'r gorsafoedd hyn, ni fydd gwir angen iddynt ddarlledu deunydd lleol. (Ystyr cyd-ddarlledu yw darlledu'r un rhaglen ar y radio a'r teledu neu ar fwy nag un sianel deledu neu orsaf radio ar yr un pryd.) Yn wir, gall yr amser ddod pan fydd y mwyafrif o bobl yn gwrando ar orsaf ar blatfformau digidol, ac ni fydd yn gwneud synnwyr ariannol bellach i'r orsaf honno gadw ei thrwydded analog. Argymhellwn y dylai'r Llywodraeth ystyried pa newidiadau yn y gyfraith sydd eu hangen, os oes angen newidiadau, i radio digidol barhau i ddarparu deunydd lleol ar ôl i gyd-ddarlledu ddod i ben.

## b) 'Lluosogaeth darpariaeth' dibenion cyhoeddus radio

- Yn ein hadolygiad o deledu gwasanaeth cyhoeddus, awgrymwyd y byddai 'lluosogaeth darpariaeth' – hynny yw, mwy nag un darlledydd yn cynnig gwasanaethau er mwyn i ddefnyddwyr allu clywed amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol – darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn bwysig yn yr oes ddigidol ac na ddylai'r BBC fod yn unig ddarparwr rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus. Awgrymon ni y gallai rhaglenni o'r fath ddal i gael eu darparu gan Channel 4 (er efallai y byddai angen rhyw fath o gyllid cyhoeddus ar y darlledwr yn y dyfodol er mwyn parhau i ddiwallu ei gyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus), ond cyflwynom y syniad hefyd o gyhoeddwr gwasanaeth cyhoeddus (CGC). Byddai'r CGC yn comisiynu cynnwys, nid ar gyfer teledu yn unig, ond ar gyfer platfformau amlgyfrwng newydd hefyd.

- Ym maes radio, rydym yn cydnabod y diffyg amrywiaeth yn y rhaglenni sy'n diwallu'r holl ddibenion cyhoeddus rydym wedi'u nodi, yn enwedig y diben o gefnogi dinasyddiaeth a'r gymdeithas sifil.

- Gobeithiwn y bydd rhyddhau rhagor o amleddau yn caniatáu i'r farchnad gynnig y nifer a'r amrywiaeth hynny o wasanaethau sy'n diwallu dibenion

cyhoeddus radio ac yn gystadleuaeth i'r BBC ym mhob math perthnasol o raglen. Fodd bynnag, os na fydd y farchnad yn bodloni hyn, argymhellwn y dylai'r Llywodraeth ystyried manteision darlledwr radio arall dan nawdd cyhoeddus, fel rhan o'i hystyriaeth o'r cyhoeddwr gwasanaeth cyhoeddus amlgyfrwng.

- Gallai hyn fod yn berthnasol ar lefel y DG ac wrth ddarparu gwasanaethau cenedlaethol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

## c) Y BBC

- Cefnogwn fodolaeth BBC cryf ac annibynnol a chroesawn y mesurau a gynigiwyd yn y Papur Gwyrdd ar gyfer:
  - dyrannu trwyddedau gwasanaeth; ac
  - y cynigion ar gyfer asesiadau 'effaith ar y farchnad', sef asesiadau o'r effaith y byddai gwasanaeth newydd gan y BBC yn ei chael ar gystadleuwyr masnachol.
- Fodd bynnag, rydym wedi argymell i'r Llywodraeth mai ni ddylai gynnal yr asesiadau effaith ar y farchnad ac y dylent gael eu cymhwyso i newidiadau sylweddol i wasanaethau cyfredol yn ogystal â gwasanaethau newydd.
- Argymhellom i'r Llywodraeth hefyd y dylem fod â phwerau dros y BBC i sicrhau nad yw'n gweithredu'n annheg, mewn set o amgylchiadau cyfyng â diffiniad clir.
- Croesawn ymgynghoriad arfaethedig y BBC ar gynnig mynediad masnachol i'w archif radio.

## d) Polisi trwyddedu

- Byddwn yn parhau i drwyddedu gorsafoedd FM masnachol lleol a gorsafoedd cymunedol analog, ond mae'r lle sydd ar gael yn y sbectrwm FM yn gyfyng iawn.
- Byddwn yn ystyried creu cyfleoedd i ragor o orsafoedd gynnig i'w gwrandawyr fanteision radio digidol (gan gynnwys ei fod yn hawdd dod o hyd i'r donfedd, bod nodweddion ychwanegol fel atal ac ailddirwyn, gwasanaethau data ac amlgyfrwng a derbyniad clir) yn y ffyrdd maent am ei dderbyn (fel derbynyddion cludadwy a symudol). Nid ydym, yn y cam hwn, yn cynnig rhaglen o newid yn llwyr i radio digidol, tebyg i'r hyn sy'n digwydd gyda'r teledu. Fodd bynnag, gwelwn fod manteision i orsafoedd allu darlledu'n ddigidol - ond nid oes hawl awtomatig i bob gwasanaeth presennol newid i radio digidol.
- Rydym yn cynnig, wedi ymgynghori, clustnodi tri bloc o sbectrwm VHF Band III i amlblecsau lleol ar y platfform DSD, er mwyn llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth gyfredol i sicrhau bod gan bob rhan o'r DG gyfle i gael o leiaf un amlblecs DSD lleol. (System yw amlblecs sy'n caniatáu i ddau neu fwy o signalau neu ffrydiau gwybodaeth gael eu trawsyrru ar yr un pryd ar ffurf un signal cymhlyg. Wedyn bydd derbynnydd yn casglu'r signalau ac yn eu gwahanu). Ar ôl gorffen y broses hon, gallai fod cymaint â 190 o wasanaethau analog lleol presennol hefyd yn darlledu'n ddigidol. Wedyn dylai holl wasanaethau lleol a chenedlaethol y BBC fod ar gael ar DSD. Cynigiwn drwyddedu'r sbectrwm hwn dan amodau'r Ddeddf Darlledu.

- Wrth wneud y cynigion hyn, rydym wedi ystyried yn llawn gost defnyddio'r sbectrwm at y diben hwn, a pheidio â rhoi hyblygrwydd llawn i'r farchnad. Rydym o'r farn bod y manteision i'r cyhoedd yn cyfiawnhau'r dewis.
- Nid ydym o'r farn bod DSD, un ai yn VHF Band III neu ym Mand L, yn addas i gynnig llwybr digidol i'r holl orsafoedd analog presennol. Yn hytrach, byddwn yn ystyried y dewisiadau technegol a allai gynnig cyfle i'r gorsafoedd (rhai masnachol a chymunedol) neu'r ardaloedd hynny lle nad yw DSD yn cynnig dewis realistig newid i radio digidol. Un posibilrwydd yw MRD (mondiale radio digidol), a allai weithredu yn y sbectrwm tonfedd ganolig (a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer radio AM) neu, yn yr hirdymor, ar VHF Band II (a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer radio FM).
- Mae'r lle i ddarlledu yn y donfedd ganolig yn gyfyng iawn. Ar y cyfan, yr unig alw am hysbysebu mwy o drwyddedau tonfedd ganolig analog yw o du gorsafoedd radio sydd am gynnig gwasanaethau sydd â darpariaeth eang iawn o'r sbectrwm. Oherwydd cyfyngiadau'r sbectrwm tonfedd ganolig cyfredol, nid yw trwyddedau ar raddfa o'r fath yn ymarferol. Gellid defnyddio'r sbectrwm tonfedd ganolig i gynnig llwybr digidol i orsafoedd masnachol a chymunedol bach sy'n defnyddio MRD. Ni chredwn y dylid trwyddedu mwy o orsafoedd masnachol ar y donfedd ganolig, o ystyried pa mor hir yw'r trwyddedau a'r perygl o wrthdaro ag MRD. Felly, ni fyddwn yn trwyddedu unrhyw orsafoedd masnachol tonfedd ganolig eraill ar hyn o bryd, er y byddwn o bosibl yn trwyddedu mwy o orsafoedd cymunedol ar y donfedd ganolig oherwydd eu bod yn fach ac wedi'u cyfyngu i drwyddedau pum mlynedd.
- Ystyriwn y bydd, rhyw bryd, yn briodol rhoi diwedd i gyd-ddarlledu gwasanaethau (ar lefel leol a'r DG) ar blatfformau analog a digidol. Ond ni ddylai hyn ddigwydd nes y gall y mwyafrif llethol o wrandawyr dderbyn radio digidol yn yr un ffordd ag y byddant yn derbyn radio analog ar hyn o bryd (fel ar dderbynyddion cludadwy a symudol), a dim ond ar ôl i ni gynnal dadansoddiad llawn.
- I gynnig mwy o ddewis i gymaint o ddefnyddwyr â phosibl, ac i gynnig y gwasanaethau hynny sydd efallai dim ond yn ymarferol ar lefel y DG, cynigiwn (yn sgil ymgynghori) glustnodi un bloc o sbectrwm yn VHF Band III i ddarparu amlblecs ychwanegol ar draws y DG. Bydd y sbectrwm hwn yn darparu mwy o wasanaethau sain yn ogystal â'r cyfle am wasanaethau amlgyfrwng newydd. I fodloni amrywiaeth o amcanion polisi darlledu, cynigiwn ddyrannu'r amlblecs hwn fel trwydded o dan y Ddeddf Darlledu.
- O ystyried y modd y caiff DSD ei ddarlledu, nid yw'n addas, ar y cyfan, ar gyfer radio cymunedol, felly efallai y bydd angen dewisiadau amgen. Gallai'r rhain fod yn ddigidol (fel MRD) neu'n analog. Gydag amser, gallai cymhwysedd ymddangos ar gyfer y gwasanaethau hyn o ganlyniad i roi diwedd i gyd-ddarlledu gwasanaethau (ar lefel leol a'r DG) ar blatfformau analog a digidol - mewn geiriau eraill drwy ddiffodd y gwasanaeth analog - unwaith y bydd y mwyafrif helaeth o wrandawyr yn gallu derbyn y gwasanaethau hynny ar blatfformau radio digidol cludadwy a symudol. Byddem yn cynnal dadansoddiad cost a budd llawn cyn penderfynu ar y mater hwn.
- Mae llawer o gyfleoedd masnachol eraill i radio y tu hwnt i'r rhai a drafodir yma. Er enghraifft, dylai ein rhaglen o arwerthiannau sbectrwm ganiatáu datblygu gwasanaethau a rhwydweithiau newydd, drwy ddefnyddio band L ac amleddau eraill. Bydd y rhaglen hon yn cynnig cymaint â phosibl o

hyblygrwydd i'r farchnad benderfynu ar dechnolegau a gwasanaethau. Mae'n ddigon posibl y bydd cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau data ac amlgyfrwng newydd, neu ragor o wasanaethau radio, p'un ai i'w darlledu am ddim neu drwy danysgrifiad (a allai fod yn boblogaidd, yn ôl ein hymchwil).

- Rydym yn cadarnhau ein cynnig i newid o ofyniad cyfradd did lleiaf (ansawdd sain) i system lle mae'r diwydiant radio'n rheoleiddio ei hun i gynnal ansawdd gwasanaethau sain.

## Cwestiwn i ymgynghori arno

17 Byddem yn croesawu'ch barn erbyn 11 Ionawr 2006 am y cwestiwn canlynol.

> A ydych yn cytuno â'r weithdrefn a'r ystyriaethau arfaethedig ar gyfer ymdrin â cheisiadau am newidiadau mewn fformat i orsafoedd radio masnachol analog lleol?

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

### Sut i ymateb

Rydym yn gwahodd eich barn a'ch sylwadau ysgrifenedig am y cwestiwn ymgynghori am newidiadau i fformat a drafodir yn y ddogfen grynhoi hon. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **5pm** ar **11 Ionawr 2006**.

Cewch bostio'ch sylwadau neu eu hanfon drwy ffacs, gan nodi teitl yr ymgynghoriad hwn, at:

Peter Davies
Director of Radio and Multimedia
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffacs: 020 7981 3806

Neu, cewch anfon eich ymateb drwy'r e-bost at peter.davies@ofcom.org.uk.

Sylwch, os cysylltwch â ni drwy e-bost, nid oes angen i chi anfon copi caled atom. Fel arfer, ni fyddwn yn cydnabod ein bod wedi cael eich sylwadau.

Yn eich ymateb, gofynnwn i chi ateb y cwestiwn y mae'r ddogfen hon yn ei ofyn yn uniongyrchol. Byddai o gymorth hefyd os gallwch esbonio pam rydych yn credu'r hyn a nodwch, a pha effaith y byddai'n cynigion yn eu cael arnoch chi.

### Rhagor o wybodaeth

Os hoffech drafod y materion a'r cwestiynau sydd yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes angen cyngor arnoch am y modd mwyaf priodol o ymateb, ffoniwch:

- Peter Davies ar 020 7981 3476;
- Neil Stock ar 020 7981 3301; neu
- Martin Campbell ar 020 7783 4677.

### Camau nesaf

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad cyn diwedd y flwyddyn ar y materion yr ymgynghorir arnynt.

Sylwch y gallwch gofrestru i gael hysbysion awtomatig pan gaiff ein dogfennau eu cyhoeddi yn www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm.

## Ein prosesau ymgynghori

Rydym yn awyddus i'w gwneud yn hawdd i chi ymateb i ymgynghoriadau felly rydym wedi cyhoeddi rhai egwyddorion ymgynghori rydym yn ceisio eu dilyn, gan gynnwys ynghylch hyd ymgynghoriadau. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar y modd y cynhaliwn ein hymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ar gyfer ymgynghoriadau ar 020 7981 3003 neu anfonwch e-bost at consult@ofcom.org.uk.

Byddem yn croesawu yn arbennig eich syniadau am sut y gallem gasglu, yn fwy effeithiol, farn y grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o gymryd rhan mewn ymgynghoriad ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn, neu ein prosesau ymgynghori yn fwy cyffredinol, gallwch gysylltu â Vicki Nash, Cyfarwyddwr, yr Alban, sy'n Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom.

Vicki Nash
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3000
Ffacs: 020 7981 3333
E-bost: vicki.nash@ofcom.org.uk